Polisi Cydnabod Dysgu Blaenorol (RPL)

DIFFINIAD

> **'Dull o asesu (sy'n arwain at ddyfarnu credydau) sy'n ystyried a all dysgwyr ddangos y medrant gwrdd â'r gofynion asesu ar gyfer uned drwy'r wybodaeth, y ddealltwriaeth neu'r sgiliau sydd ganddynt yn barod ac nad oes raid iddynt felly eu datblygu drwy gwrs dysgu.'**

RHAGARWEINIAD

Mae SNAP Cymru'n ceisio helpu dysgwyr i osgoi dyblygu wrth ddysgu ac asesu.

Cyflawnir hyn mewn dwy ffordd:

1. Drwy roi cyfle i drosglwyddo credydau, hy, i gydnabod gwaith sydd wedi'i achredu'n flaenorol o fewn neu'r tu allan i'r Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (QCF) fel y gall gyfrif tuag at gymwysterau eraill.

2. I unigolion sydd â dysgu, sgiliau neu gyflawniad na chafodd eu hardystio neu achredu, gallai fod yn bosibl asesu a dilysu'r rhain drwy broses RPL. Gallai'r cyflawniad hwn yna gyfrif tuag at gymhwyster.

POLISI

Er mwyn cyflawni'r uchod, rhaid i'r dysgwr gynhyrchu tystiolaeth ddilys a dibynadwy o ddysgu i gefnogi unrhyw hawliad sy'n seiliedig ar brofiad. Gall dysgwr hawlio RPL yn erbyn uned gyfan neu sawl uned. Nid yw'n bosibl dyfarnu rhannau o unedau, ond lle nad yw'r dystiolaeth o RPL yn llwyr fodloni anghenion uned gyfan, gellir darparu'r wybodaeth goll drwy'r un prosesau asesu ag a gyflawnir gan grŵp o ddysgwyr sydd wedi eu haddysgu. Er mwyn ennill cyflawniad wedi'i gydnabod, mae gan y dysgwr ddau opsiwn:

> **1. Cyflawni'r un asesiadau (cwblhau portffolio) â dysgwyr sy'n dilyn cwrs dysgu ac asesu ffurfiol sy'n arwain at ennill yr uned neu'r**

cymhwyster dan sylw. Gellir cyflawni'r asesiadau hyn heb fynychu'r sesiynau addysgu.

2. Cyflwyno portffolio o dystiolaeth sy'n seiliedig ar ddysgu, sgiliau a / neu gymwyseddau blaenorol, wedi'i groes-gyfeirio i ganlyniadau dysgu a meini prawf asesu'r uned neu unedau y ceisir sicrhau'r RPL ar eu cyfer.

Rhaid i ddysgwyr sydd am wneud defnydd o'r dull achredu hwn negodi'r weithdrefn â'r Uned Hyfforddiant.

Rhaid i'r dysgwr gyfrannu'n weithgar at y broses drwy gyflwyno tystiolaeth a'i mapio i ganlyniadau dysgu a meini prawf asesu yr holl unedau y maent eisiau eu hawlio. Bydd staff wedi eu hyfforddi'n briodol o'r Uned Hyfforddiant yn gallu rhoi cyngor ar y broses hon. Efallai y bydd hefyd angen cymorth rheolwr llinell neu sefydliadau eraill ar yr unigolion sydd am hawlio credydau (ee, os ydynt wedi gweithio fel gwirfoddolwr di-dâl) er mwyn gallu cadarnhau y bodlonwyd meini prawf asesu lle nad oes tystiolaeth amlwg o hynny, ee, tasgau ymarferol.

EGWYDDORION RPL

Yn ôl 'Hawliau Credydau – Arweiniad ar gydnabod dysgu blaenorol o fewn y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau', mae pum egwyddor RPL fel a ganlyn:

- Mae RPL yn ddull dilys fel bod unigolion yn gallu hawlio credyd am unedau a chymwysterau'r QCF, sut bynnag y digwyddodd y dysgu a'r asesiadau.
- Rhaid i RPL gydymffurfio â'r holl ofynion rheoleiddio ar gyfer asesu. Dylai polisïau, prosesau, gweithdrefnau, arferion a phenderfyniadau RPL fod yn dryloyw, trylwyr, dibynadwy, teg a hygyrch i unigolion a rhanddeiliaid i sicrhau y gall defnyddwyr fod yn ffyddiog ym mhenderfyniadau a chanlyniadau RPL.
- Proses wirfoddol dysgwr-ganolog yw RPL. Dylid cynnig cyngor i'r unigolyn ar natur a'r ystod o dystiolaeth yr ystyrir iddi fod yn briodol i gefnogi hawliad i asesu RPL, a dylid rhoi arweiniad a chymorth i'r unigolyn i wneud ei hawliad.
- Mae'r broses RPL yn gorfod bodloni'r un safon o ran prosesau sicrhau ansawdd a monitro ag unrhyw fath arall o ddysgu ac asesu.
- Rhaid i'r dulliau o asesu RPL fod yr un mor drylwyr ag unrhyw ddulliau asesu eraill, yn ffit i'r pwrpas ac yn berthnasol i'r dystiolaeth o ddysgu.

GWEITHREDU

Cam 1: Codi Ymwybyddiaeth Ynghylch Hawlio Credyd

Bydd gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar gael i'r holl staff a gwirfoddolwyr. Unwaith fydd dysgwr wedi penderfynu ystyried eu dysgu i bwrpas RPL, bydd yn derbyn gwybodaeth am:

sut i hawlio credyd drwy'r broses RPL, am ffynonellau cymorth ac arweiniad, am y prosesau o weinyddu ceisiadau RPL, yr amserlen, y broses apelio ac unrhyw ffioedd neu gymhorthdal, a pha mor ddilys yw credydau, cymwysterau, profiad, sgiliau neu gymwyseddau presennol. (hy, a yw'r dystiolaeth yn berthnasol i ddysgu presennol?)

Cam 2: Cyn-Asesu – Casglu Tystiolaeth a Rhoi Gwybodaeth

Pan fydd unigolyn wedi penderfynu dilyn llwybr RPL tuag at gyflawni, mae'n hanfodol bod yr ymgeisydd yn gwybod popeth am y broses RPL ac yn derbyn digon o gymorth i wneud hawliad hyfyw ac i wneud penderfyniadau ynghylch pa wybodaeth i'w chasglu a'i chyflwyno i'w hasesu.

Yn ystod y cam hwn, bydd yr ymgeisydd yn casglu'r dystiolaeth ac yn creu cynllun asesu. Bydd y dystiolaeth sydd ei hangen i ddyfarnu credyd yn dibynnu ar bwrpas, canlyniadau dysgu a'r meini prawf asesu ar gyfer yr unedau perthnasol yn y QCF.

Cam 3: Asesu / Cofnodi Tystiolaeth

Mae asesu fel rhan o RPL ac o fewn y QCF yn broses ffurfiol o gasglu ac adolygu tystiolaeth a gwneud penderfyniadau ynghylch dysgu a phrofiad blaenorol ymgeisydd yng nghyswllt safonau unedau.

Rhaid i'r asesu fod yn ddilys a dibynadwy i sicrhau hygrededd yr unedau a'r cymwysterau a'r system RPL yn gyffredinol.

Rhaid i'r broses asesu ar gyfer RPL fod yn destun yr un prosesau sicrhau ansawdd gan sefydliadau dyfarnu ag unrhyw ran arall o'r broses asesu.

Rhaid i waith dysgwyr sy'n cyfrannu tuag at hawlio credydau drwy'r broses RPL gael ei wirio'n fewnol ac allanol a rhaid i'r holl gyflawniad gael ei gofnodi fel gyda chyflawniad dysgwr confensiynol a dylid nodi pob cyflawniad cysylltiedig â RPL yn benodol felly ar bob dogfen. Cam 4: Dyfarnu Credyd

Sefydliadau dyfarnu sy'n gyfrifol am ddyfarnu credydau. Mae'r weithdrefn yr un fath â chyda mathau eraill o asesu. Cofnodir y credyd yng nghofnod y dysgwr. Dylid nodi unrhyw hawliad credyd drwy RPL yn benodol felly i sicrhau na ddyfernir mwy o gredydau nag a ganiateir o dan y rheolau ar gyfuno cymwysterau. Bydd hyn yn cael ei gofnodi fel RPL yn hytrach na'r dull asesu arferol ac ar yr hawliadau credyd tuag at gymhwyster llawn.

Bydd tystysgrifau, lle bo'n briodol, yn cael eu dyfarnu gan y sefydliad dyfarnu, bydd angen nodi'r credydau fel rhai RPL a chydnabod y RPL ar drawsgrifiadau credyd.

Cam 5: Adborth

Ar ôl asesu, bydd angen i'r asesydd roi adborth i'r ymgeisydd, trafod y canlyniadau a rhoi cymorth ac arweiniad ar yr opsiynau sy'n agored i'r ymgeisydd a allai gynnwys, er enghraifft, dysgu a datblygiad pellach.

Cam 6: Apelio

Os yw'r hawlydd am apelio yn erbyn penderfyniad ynghylch ei hawliad credyd (drwy'r broses RPL), bydd angen iddo ef neu hi ddilyn y broses apelio arferol gan sefydliad sy'n aelod o Agored Cymru.

Casglu gwybodaeth am ddefnydd a wnaed o RPL

Er mwyn mesur pa ddefnydd a wnaed o brosesau RPL, bydd angen i wirwyr allanol adnabod unrhyw ddarpariaeth lle defnyddiwyd RPL. Bydd gwybodaeth a gasglwyd am y defnydd a wnaed o RPL ac eithrio credyd ar gael fel rhan o'r broses flynyddol o adrodd ar ansawdd.